

PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

DYDD MERCHER, 16 TACHWEDD 2022

PRESENNOL (Yn rhithwir): Cyngorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

G. Davies E.M.J.G. Schiavone

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr

S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion

S. Rossiter, Cyfreithiwr Cynorthwyol

M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd

A. Eynon, Prif Gyfieithydd

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.17 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd R. Sparks.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION

3.1. 19FED HYDREF 2022 10:00YB

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 (10:00am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.2. 19FED HYDREF 2022 10:10YB

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 (10:10am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.3. 19FED HYDREF 2022 10:20YB

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 (10:20am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.4. 19FED HYDREF 2022 10:30YB

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 (10:30am) gan eu bod yn gofnod cywir.

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 (10:40am) gan eu bod yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD E.H.T. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i E.H.T i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos a'r asesiad o'r llwybr cerdded posibl o gyfeiriad cartref E.H.T i'r ysgol ddynodedig.

PENDERFYNWYD, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl oherwydd bod cyfeiriad cartref E.H.T. o fewn y pellter cerdded statudol i'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a bod y llwybr cerdded yn addas yn ôl yr asesiad a wnaed yn unol â Meini Prawf Llywodraeth Cymru.

CADEIRYDD

DYDDIAD